Archwilio Cymru
Audit Wales

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

## Crynodeb Archwilio Blynyddol 2023



Dyma ein crynodeb archwilio ar gyfer Cyngor Conwy.

Mae'n dangos y gwaith a gwblhawyd ers y Crynodeb Archwilio Blynyddol diwethaf, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2023. Mae ein crynodeb archwilio yn rhan o ddyletswyddau Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Ceir rhagor o wybodaeth am y dyletswyddau hyn ar gael ar ein gwefan.

## Ynglŷn â'r Cyngor

### Rhai o'r gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu



**Ffeithiau allweddol**

Mae'r Cyngor yn cynnwys 55 o gynghorwyr sy'n cynrychioli'r pleidiau gwleidyddol canlynol:

- Grŵp Annibynnol Cyntaf Conwy 20
- Ceidwadwyr 10
- Plaid Cymru 9
- Llafur 9
- Democratiaid Rhyddfrydol Cymru 4
- Allied Independents 2
- Annibynwyr 1

Gwariodd y Cyngor £275.2 miliwn ar ddarparu gwasanaethau[1] yn ystod 2022-23[2].

[1] Rydym yn diffinio gwariant ar wasanaethau fel cost y gwasanaethau a godir i'r gronfa gyffredinol o'r Dadansoddiad Cyllid Gwariant, llai o unrhyw gost o wasanaethau Cyfrif Refeniw Tai, yn ogystal â praeseptau, ardollau a llog dyled.

[2] Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon 2022-23

**Ffeithiau allweddol**

Ar 31 Mawrth 2023, roedd gan y Cyngor £42.7 miliwn o gronfeydd ariannol defnyddiadwy[3]. Mae hyn yn cyfateb i 15.5% o wariant blynyddol y Cyngor ar wasanaethau[4].

Mae gan CBS Conwy chwech o'r 10% mwyaf difreintiedig o ardaloedd yng Nghymru, dyma'r deuddegfed uchaf ar y cyd o'r 22 cyngor unedol yng Nghymru[5].

Rhagwelir y bydd poblogaeth y Fwrdeistref Sirol yn cynyddu 4.3% rhwng 2023 a 2043 o 118,625 i 123,749, gan gynnwys gostyngiad o 6.3% yn nifer y plant, gostyngiad o 4.8% yn nifer y boblogaeth oedran gweithio a chynnydd o 27.7% yn nifer y bobl 65 oed a hŷn[6].

# Dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol

## Gwnaethom gwblhau gwaith yn ystod 2022-23 i gyflawni'r dyletswyddau canlynol:

- **Archwilio Cyfrifon**

  Bob blwyddyn mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio datganiadau ariannol y Cyngor i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei gyfrif yn briodol.

- **Gwerth am arian**

  Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio a yw'r Cyngor wedi rhoi trefniadau ar waith i gael gwerth am arian am yr adnoddau y mae'n eu defnyddio, ac mae'n rhaid iddo fod yn fodlon ei fod wedi gwneud hyn.

- **Egwyddor datblygu cynaliadwy**

  Mae angen i gyrff cyhoeddus gydymffurfio â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod a chymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant. Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol asesu i ba raddau y maent yn gwneud hyn.

[3] Rydym yn diffinio cronfeydd ariannol y gellir eu defnyddio fel cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio ar gyfer costau refeniw, lle nad yw'r pwrpas wedi'i ddiogelu gan y gyfraith. Dyma gyfanswm y gronfa gyffredinol, cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi a balansau ysgolion. Mae'n eithrio cronfeydd wrth gefn Cyfrif Refeniw Tai, derbyniadau cyfalaf a grantiau cyfalaf nad ydynt yn cael eu cymhwyso.

[4] Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon 2022-23

[5] Diffinnir ardal yn y cyd-destun hwn fel 'Ardal Allbwn Super Isaf'. Ffynhonnell: Stats Cymru

[6] Ffynhonnell: StatsCymru, Amcanestyniadau Poblogaeth

# Yr hyn a ganfuom

## Archwilio Cyfrifon 2022-23 Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

**Er mwyn cyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol rydym yn cwblhau prosiectau penodol, ond rydym hefyd yn dibynnu ar waith archwilio eraill, a gwaith rheoleiddwyr fel Arolygiaeth Gofal Cymru ac Estyn (yr arolygiaeth addysg). Rydym yn ystyried canfyddiadau ein gwaith archwilio wrth asesu a yw'r Cyngor wedi sefydlu trefniadau i sicrhau gwerth am arian. Mae ein canfyddiadau a'n casgliadau wedi'u crynhoi isod.**

Bob blwyddyn rydym yn archwilio datganiadau ariannol y Cyngor.

### Ar gyfer 2022-23:

- Cyflwynwyd y datganiadau drafft i'w harchwilio ar 31 Gorffennaf 2024, o fewn y dyddiad cau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru.
- Roedd ansawdd y datganiadau drafft a gyflwynwyd i'w harchwilio arnynt yn dda ar y cyfan.
- rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn wir a theg ddiamod ar ddatganiadau ariannol yr Awdurdod ar 21 Mai 2024, ar ôl y dyddiad cau y cytunwyd arno gyda Llywodraeth Cymru ar 30 Tachwedd 2023. Cyflwynwyd yr archwiliad yn ddiweddarach nag mewn blynyddoedd blaenorol yn bennaf oherwydd effaith gofynion safonol archwilio newydd ac oedi sy'n deillio o archwiliadau blaenorol ledled Cymru. Cafodd y rhain eu cynnwys yn ein cynllun archwilio a ystyriwyd gan y Pwyllgor Archwilio ar 12 Chwefror 2024.
- Paratowyd Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac Adroddiad Naratif yr Awdurdod yn unol â Chod CIPFA a chanllawiau perthnasol. Roeddent hefyd yn gyson â'r datganiadau ariannol a baratowyd gan yr Awdurdod ac â'n gwybodaeth am yr Awdurdod.
- Gwnaed nifer o newidiadau i ddatganiadau ariannol yr Awdurdod yn deillio o'n gwaith archwilio, a adroddwyd i'r Pwyllgor Archwilio yn ein Hadroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol ym mis Mai 2024.
- Yn ogystal â chyfrifoldebau'r Archwilydd Cyffredinol dros archwilio datganiadau ariannol yr Awdurdod, mae hefyd yn gyfrifol am ardystio nifer o hawliadau a ffurflenni grant. Nid yw ein gwaith hyd yn hyn wedi nodi unrhyw faterion pwysig.
- Cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol y dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o gyfrifon ar gyfer 2022-23 wedi'i gwblhau.

## Adolygiad sicrwydd ac asesu risg

Fe wnaethom adolygu'r trefniadau y mae'r Cyngor wedi'u rhoi ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio ei adnoddau. Gwnaethom gynhyrchu'r adroddiadau canlynol o'n gwaith sicrhau ac asesu risg:

- Gosod amcanion llesiant – gwnaethom edrych ar ddull y Cyngor o bennu ei amcanion llesiant. Canfuom fod y Cyngor wedi dangos dull cadarn o weithredu'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn y broses o osod ei amcanion llesiant newydd, ond roedd lle i ystyried amcanion sefydliadau eraill yn fwy penodol a'r effaith gysylltiedig ar ei amcanion ei hun.
- Defnyddio gwybodaeth perfformiad – safbwynt defnyddwyr gwasanaeth a chanlyniadau – edrychom ar bersbectif defnyddwyr y gwasanaeth a'r data canlyniadau a ddarparwyd i aelodau ac uwch swyddogion, a sut mae'r wybodaeth hon yn cael ei defnyddio. Canfuom fod uwch arweinwyr y Cyngor yn cael gwybodaeth sy'n eu helpu i ddeall pa mor dda y mae'r rhan fwyaf o wasanaethau a pholisïau yn diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaeth, ond mae gwybodaeth am ganlyniadau ei weithgareddau yn gyfyngedig gan gyfyngu ar eu gallu i reoli perfformiad yn effeithiol.

## Strategaeth Ddigidol

Yn ystod 2022-23, gwnaethom archwilio dull strategol y Cyngor o ymdrin â digidol, ac yn benodol i ba raddau y datblygwyd hyn yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy; ac y bydd yn helpu i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau'r Cyngor.. . Canfuom fod y Cyngor wedi nodi ei uchelgais ar gyfer defnyddio technoleg ddigidol, ond nid yw'n cael ei gostio'n llawn ac mae gwendidau mewn trefniadau monitro a gwerthuso.

## Adolygiad dilynol o drefniadau rheoli prosiectau

Yn ystod 2022-23, dilynom ein hadolygiad yn 2020 i drefniadau rheoli prosiectau i roi sicrwydd bod y cyngor wedi gwella rheolaeth a gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed. Gwnaeth adolygiad 2020 un argymhelliad 'rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn defnyddio'r system CAMMS i gofnodi a rheoli'r holl brosiectau sy'n dod o fewn cylch gwaith Fframwaith Rheoli Rhaglen a Phrosiectau'r Cyngor'. Daeth ein dilyniant i'r casgliad bod y Cyngor yn defnyddio CAMMS i gofnodi a rheoli ei holl raglenni a phrosiectau arwyddocaol.

## Arolygiaethau eraill

Gwnaethom hefyd ystyried adroddiadau Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac Estyn yn ogystal ag unrhyw gamau dilynol a gymerwyd gan y Cyngor mewn ymateb.

## Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 2023-24

Gwnaethom hefyd edrych ar yr heriau a'r cyfleoedd allweddol sy'n wynebu'r Cyngor. Gallai'r rhain effeithio ar allu'r Cyngor i gyflawni ei rwymedigaethau cyfreithiol mewn perthynas â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r defnydd o'i adnoddau.

Mae ein gwaith ar gyfer 2023-24 yn cynnwys:

- Sicrwydd ac asesiad risg
- Adolygiad thematig – cynaliadwyedd ariannol
- Adolygiad thematig – comisiynu
- Adolygiad lleol – rheoli gwastraff ac ailgylchu

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth ac fe'i penodwyd gan Ei Mawrhydi'r Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sef bwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cael ei dwyn i gyfrif gan y Senedd.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol, a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol, yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion sy'n weddill Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a chaiff gynnal archwiliadau arbennig o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'i chyrff cyhoeddus noddedig a chysylltiedig, Comisiwn y Senedd, a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Archwilio Cymru yw'r enw ar y cyd anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân gyda'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain, fel y disgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.